

## Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i'r adroddiad Cytundebau rhyngwladol y DU ar ôl Brexit: Rôl i'r Cynulliad gan y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad. Mae ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad i'w gweld isod:

**Argymhelliad 1.** Er mwyn caniatáu i'r gwaith craffu hwn ddigwydd, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn gosod Dull Amlinellol y DU<sup>24</sup> ar yr un pryd ag y caiff y Dull Amlinellol ei osod gerbron Senedd y DU. Dylid cyflwyno memorandwm ychwanegol ochr yn ochr â'r Dull Amlinellol sy'n egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ac effaith gweithredu'r cytundeb yn y pen draw ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu swyddogaethau Gweinidogion Cymru.

<sup>24</sup> Fel y cyfeirir ato ym Mhapur Gorchymyn Llywodraeth y DU

### Ymateb: Derbynn mewn egwyddor

Mae'n bwysig bod Senedd Cymru yn cael digon o amser a gwybodaeth i allu craffu ar ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer dylanwadu ar y negodiadau masnach sy'n cael eu cynnal gan Lywodraeth y DU. Gan y bydd negodiadau masnach yn cynnwys meysydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â meysydd cymhwysedd datganoledig, rydym wedi bod yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cael cyfranogi mewn modd agos yn y meysydd perthnasol. Yn y meysydd hyn, rydym yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn cael cyfranogi ar yr un pryd â chyfranogiad gan Adrannau Llywodraeth y DU, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU yn ystyried safbwynt y Gweinyddiaethau Datganoledig yn llawn, os nad ydynt yn cael eu gwneud ar y cyd â'r Gweinyddiaethau hynny. Bydd angen inni gynnal y trafodaethau hyn yn gyfrinachol, gan barchu unrhyw benderfyniadau a wneir o ran yr hyn y gallwn ei rannu a phryd y gallwn wneud hynny.

Rydym o'r farn y dylid rhoi'r un cyfleoedd craffu i'r Deddfwrfeydd Datganoledig ag a roddir i Senedd y DU mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig. Rwy'n cytuno gyda'r Pwyllgor y dylai dogfennau sy'n cael eu gosod gerbron Senedd y DU, gael eu gosod gerbron Senedd Cymru ar yr un pryd.

Rwy'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru gytuno hefyd i osod memorandwm ychwanegol sy'n egluro ein safbwynt ac unrhyw oblygiadau clir i gymhwysedd gweithredol neu ddeddfwriaethol datganoledig, lle bo hynny'n bosibl. Fodd bynnag, allaf dderbyn yr argymhelliad y dylai hynny ddigwydd ar yr un pryd â gosod dull amlinellol Llywodraeth y DU. Cyn cytuno â'r argymhelliad hwn, byddai angen inni gael sicrwydd gan Lywodraeth y DU y byddem yn cael mynediad ymlaen llaw at yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn null amlinellol y DU, er mwyn caniatáu amser i ddatblygu memorandwm sy'n benodol i Gymru. Dylid nodi, fel yr eglurir yn y Papur Gorchymyn, bod dull amlinellol y DU yn annhebygol o gynnwys disgrifiad manwl o ffurf y cytundeb terfynol. Mae felly'n bosibl, ac o bosibl yn debygol, na fyddai Llywodraeth Cymru yn gallu nodi mewn modd ystyrlon y goblygiadau a fyddai'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw gytundeb terfynol, gan gynnwys unrhyw effaith ar gymhwysedd gweithredol neu ddeddfwriaethol datganoledig. Felly ni allaf dderbyn yr argymhelliad bod yn rhaid i'r memorandwm gynnwys y goblygiadau ar gyfer cymhwysedd gweithredol neu ddeddfwriaethol datganoledig, gan ei fod yn bosibl na ellir eu hadnabod o ddull amlinellol y DU. Fodd bynnag, rwy'n ymrwmo i ddarparu unrhyw wybodaeth am y materion hyn sy'n rhesymol glir o edrych ar ddull amlinellol y DU.

**Goblygiadau ariannol:** Bydd rhai costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â pharatoi memoranda, gan gynnwys cael cyngor cyfreithiol cysylltiedig. Mae hyn yn rhan o gyfrifo'r costau sy'n gysylltiedig â datblygiad parhaus swyddogaeth polisi masnach newydd ar draws Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymhell, mewn amgylchiadau lle mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dod i gytundeb a fyddai'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y dyfodol ar ôl ei weithredu, yna dylai Llywodraeth Cymru ofyn am gydsyniad y Cynulliad cyn cyflwyno sylwadau o'r fath i Lywodraeth y DU .

**Ymateb: derbyn mewn egwyddor**

Pe baem yn sicrhau'r rôl yr ydym yn ei cheisio mewn negodiadau, gallem fod yn rhan o drafodaethau hir ynglŷn ag amrywiaeth o feysydd cymhleth. Pe bai'n dod yn glir y byddai cytundeb yn debygol o gyfyngu ar Senedd Cymru yn arfer ei chymhwysedd deddfwriaethol, a phe gofynnid i Lywodraeth Cymru gydsynio â hynny, byddem yn ei gwneud yn glir y byddai'n rhaid Senedd Cymru graffu ar unrhyw gytundeb dros dro y byddem yn dod iddo yng nghydestun negodiadau cyfrinachol. Ar y cyd â Llywodraeth y DU, byddwn yn ymchwilio i drefniadau posibl ar gyfer ymgysylltu â Senedd Cymru yn ystod neu rhwng cylchoedd negodi er mwyn adlewyrchu unrhyw drefniadau a roddir ar waith ar gyfer Senedd y DU.

Mae'n debygol y bydd angen deddfwriaeth ddomestig ar gyfer gweithredu cytundebau o'r fath. Bydd Senedd Cymru yn chwarae rôl allweddol yn hyn, naill ai drwy graffu ar ddeddfwriaeth, a'i phasio, i weithredu unrhyw rwymedigaethau mewn perthynas â Chymru, neu drwy roi cydsyniad i Fil o eiddo'r DU, sy'n rhoi'r cytundeb rhyngwladol ar waith ar gyfer y DU gyfan, lle bo'r Bil yn cynnwys darpariaethau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU i sicrhau bod modd i ddogfennau negodi sy'n cael eu gosod yn y Senedd gael eu gosod yn y Cynulliad ar yr un pryd. Yn ogystal, lle cynigir mynediad gwell at ddogfennau negodi i Senedd y DU, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod mynediad cyfatebol yn cael ei ganiatáu i Aelodau'r Cynulliad i'r graddau y mae'r dogfennau'n ymwneud â meysydd datganoledig a meysydd a allai effeithio ar gymhwysedd datganoledig.

**Ymateb: Derbyn**

Byddwn yn parhau i bwysu i Senedd Cymru gael cyfwerthedd â Senedd y DU yn y meysydd hyn. Mae hwn yn gais ymarferol a rhesymol yr ydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn cytuno iddo.

**Goblygiadau ariannol:** Dim – eisoes yn rhan o waith sy'n mynd rhagddo

**Argymhelliad 4.** Yn yr amgylchiadau hyn, rydym yn argymhell bod unrhyw gynigion ar gyfer proses ddiwygiedig o graffu gan Senedd y DU yn ymgorffori'r angen i ystyried barn y Cynulliad cyn cadarnhau cytundeb. Gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gefnogi hyn.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon cymeradwyo a chefnogi'r egwyddor y dylid ymgynghori â Senedd Cymru fel rhan o broses graffu Senedd y DU ac unrhyw gonfensiwn rhwng deddfwrfeydd. Ond, nid yw'n glir eto pa broses ddiwygiedig o graffu gan Senedd y DU a allai gael ei chynnig ac yn y pen draw, mae'r argymhelliad hwn y tu allan i reolaeth Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dadlau'n gyson yn erbyn rhoi rôl statudol i Senedd Cymru yn y broses gadarnhau. O ganlyniad, rwy'n croesawu bod yr adroddiad yn cydnabod nad oes gan Senedd y DU y pŵer i roi feto llwyr ar gytundebau rhyngwladol, ac o gadw hynny mewn cof, nid yw'r adroddiad yn mynd mor bell ag awgrymu y dylai Senedd Cymru gael pwerau feto.

**Goblygiadau ariannol:** Dim ar gyfer Llywodraeth Cymru

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i weithredu cytundebau rhyngwladol yn wahanol fel ffordd o sicrhau bod buddiannau datganoledig yn cael eu hystyried, heb amharu ar y broses o fwrw ymlaen â chytundeb y DU.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae llawer o enghreifftiau o weithredu gwahaniaethol yn cael ei alluogi mewn cytundebau masnach rydd, sy'n aml yn angenrheidiol er mwyn cydnabod amrywiaeth o faterion cymhleth a threfniadau llywodraethu mewn cenhedloedd sofran gwahanol. Er enghraifft, bydd yr Unol Daleithiau'n aml yn eithrio darpariaethau ar lefel taleithiau o'i chytundebau masnach, a bydd yr UE yn cydnabod trefniadau gwahanol mewn gwahanol aelod-wladwriaethau.

Byddwn yn ymchwilio i eithriadau ac atodiadau perthnasol, yn ddelfrydol yn seiliedig ar enghreifftiau sy'n gosod cyswllt, lle mae meysydd sy'n gysylltiedig â chymhwysedd datganoledig na ellir cyrraedd cytundeb rhwng y DU a Llywodraethau Datganoledig mewn perthynas â nhw. Gallai'r dull gweithredu hwn fod yn angenrheidiol ar gyfer adlewyrchu realtioedd protocol Gogledd Iwerddon pe bai'r EU a'r DU yn dilyn trywydd gwahanol i'w gilydd (a chan ymestyn hynny, y DU a Phrydain Fawr) mewn meysydd perthnasol. Byddwn yn gwneud achos o blaid Cymru yn yr un modd lle bo hynny'n briodol, ar ôl ystyried y risgiau a'r manteision, gan gynnwys unrhyw effeithiau posibl ar Farchnad Fewnol y DU.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhelliad ei hun. Gallai realiti safbwyntiau penodol godi goblygiadau ariannol sylweddol (er enghraifft monitro a gorfodi safonau gwahanol yng Nghymru a Lloegr) a bydd angen ystyried y rhain fesul achos.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio ymrwymiad gan Lywodraeth y DU i hysbysu Gweinidogion Cymru a'r Cynulliad os yw'n bwriadu rhoi effaith dros dro i gytundeb rhyngwladol (yn rhannol neu'n llawn).

**Ymateb: Derbyn**

Byddem yn disgwyl i hyn fod yn rhan arferol o'r broses o gydsynio ynghylch cytundeb rhyngwladol.

**Goblygiadau ariannol:** Nid oes costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r argymhelliad, er y bydd costau cysylltiedig mewn perthynas â gweithredu cytundebau rhyngwladol, gan ddibynnu ar natur unrhyw newidiadau y bydd angen eu gwneud i ddeddfwriaeth neu drefniadau eraill.